



Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rheolwr Cyfathrebu

Pecyn Recriwtio



Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a


rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.

Ble rydym wedi'n leoli?

**Dros 250 o
weithwyr ar draws
Gogledd a
Canolbarth Cymru**

- Aberaeron, Ceredigion
- Bangor, Gwynedd
- Conwy
- Dolgellau, Gwynedd
- Helygain, Sir y Fflint
- Llandrindod, Powys
- Drenewydd, Powys



Teitl y swydd: Rheolwr Cyfathrebu



Cyflog: £44,711-£46, 731
Cyfnod: Parhaol

Lleoliad: **Aberystwyth, Bangor, Conwy, Helygain, Llandrindod a Drenwydd, Hybrid**

Dyddiad cau: 12/06/2025 10:00

[Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd](#)
[www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.](#)

Ceisiwch

Pwrrpas y swydd

Ydych chi'n gyfathrebu strategol gydag angerdd am wasanaeth cyhoeddus a negeseuon sy'n cael effaith sylweddol? Rydym yn chwilio am Reolwr Cyfathrebu profiadol a rhagweithiol i arwain swyddogaeth gyfathrebu genedlaethol Traffig Cymru, gwasanaeth gwybodaeth traffig Llywodraeth Cymru sy'n wynebu'r cyhoedd.

Mae Traffig Cymru yn chwarae rhan hanfodol wrth gysylltu'r cyhoedd sy'n teithio gyda diweddariadau amser real a negeseuon trafndiaeth allweddol drwy Ganolfannau Rheoli Traffig Llywodraeth Cymru yng Nghonwy a Choryton. Fel Rheolwr Cyfathrebu, byddwch yn arwain y gwaith o gyflwyno strategaeth gyfathrebu Cymru gyfan, gan sicrhau bod gwybodaeth glir, gywir a hygyrch yn cael ei chyflwyno ar draws llwyfannau digidol, ymgyrchoedd a gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae hwn yn gyfle unigryw i lunio sut mae miliynau o bobl yn ymgysylltu â'r rhwydwaith ffyrdd strategol yng Nghymru. Byddwch yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Asiantau Cefnffyrdd (ACGCC ac ACDC), gwasanaethau brys, ac ystod eang o randdeiliaid i sicrhau dull cyfathrebu unedig ac ymatebol.

Mae'r rôl yn gofyn am sgiliau cyfathrebu, arweinyddiaeth a rheoli perthynas eithriadol - yn ogystal â'r gallu i weithredu'n hyderus mewn amgylchedd cyflym, uchel ei broffil.

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol. Rhaid i chi hefyd fod yn barod i deithio'n rheolaidd ledled Cymru, gan gynnwys ymweliadau misol â safleoedd partner yng Nghanolbarth a De Cymru.

Dyma'ch cyfle i gymhwyso eich creadigrwydd, eich meddwl strategol, a'ch gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus mewn rôl hynod weladwy ac ystyrlon sy'n helpu i gadw Cymru i symud.

A group of construction workers wearing high-visibility orange and yellow safety suits and hard hats are standing on a concrete bridge deck. In the background, a large crane is visible against a blue sky with some clouds. The surrounding landscape is hilly and green.

Cyfrifoldebau

1. Arweinyddiaeth a Llywodraethu Strategol

- Darparu arweinyddiaeth strategol a chyfeiriad ar gyfer darparu holl gyfathrebiadau Traffig Cymru ar draws rhwydwaith cefnffyrdd llawn Cymru.
- Datblygu, gweithredu a gwerthuso strategaeth gyfathrebu Cymru gyfan sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a pholisi trafnidiaeth cenedlaethol.
- Goruchwyllo datblygiad parhaus sianeli cyfathrebu digidol, gan gynnwys gwefan Traffig Cymru a llwyfannau cymdeithasol.
- Arwain ymgysylltu mewnol a thraws-ranbarthol, yn enwedig rhwng Canolfannau Rheoli Traffig yn Coryton a Chonwy, i sicrhau darparu gwasanaethau cyson.
- Meithrin diwylliant o arloesi, gwelliant parhaus, ac aliniad ag arfer gorau mewn cyfathrebu gwasanaeth cyhoeddus.

2. Rheoli Tîm a Pherfformiad

- Cyfrifoldeb rheoli llinell uniongyrchol ar gyfer hyd at 8 o staff Cyfathrebu Traffig Cymru, gan sicrhau arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a datblygiad proffesiynol cryf.
- Datblygu amcanion perfformiad staff a chynnal adolygiadau rheolaidd i annog twf ac effeithlonrwydd.
- Goruchwyllo rotas staff i sicrhau bod gofynion gweithredol y gwasanaeth yn cael eu bodloni.

3. Datblygu a Rheoli Perthynas

- Cymryd rôl arweinïol wrth ddatblygu a chynnal perthynas waith gref a chydweithredol gydag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) ac Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA), gan gydnabod eu rôl hanfodol wrth ddarparu gwasanaeth cyfathrebu cydgysylltiedig Cymru gyfan.
- Gweithio'n agos gyda'r timau gweithredol, rheoli rhwydwaith, cyflenwi cyfalaf, a gwaith stryd o fewn y ddau Asiant Cefnffyrdd i sicrhau cyfathrebu cyson, cywir ac amserol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol ac amcanion trafnidiaeth cenedlaethol.
- Darparu cymorth cyfathrebu arbenigol i ymgyrchoedd ar y cyd, prosiectau seilwaith, a gweithgareddau ymateb brys a gynhelir gan NMWTRA a SWTRA.
- Gwasanaethu fel cyswllt cyfathrebu canolog rhwng Llywodraeth Cymru a'r Asiantau Cefnffyrdd, gan gefnogi aliniad negeseuon strategol, blaenoriaethau polisi, a dulliau ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Teithio'n rheolaidd (o leiaf bob mis) i swyddfeydd NMWTRA a SWTRA, gan sicrhau ymgysylltu wyneb yn wyneb, meithrin perthnasoedd, a chynllunio cydweithredol i wella darpariaeth gwasanaethau ledled Cymru gyfan.
- Hyrwyddo diwylliant o ymddiriedaeth, agored ac ymateboldeb ar draws pob perthynas waith, gan sicrhau cydlynw cyson rhwng sefydliadau partner, yn enwedig yn ystod cyfnodau o aflonyddwch, cyflawni prosiectau cyfalaf, neu ddigwyddiadau brys.

4. Rheoli Argyfwng ac Ymateb i Ddigwyddiadau

- Gweithredu fel y prif lefarydd yn ystod digwyddiadau mawr, gan sicrhau negeseuon clir, cryno a dwyieithog.
- Goruchwyllo strategaethau cyfathrebu argyfwng, gan sicrhau lledaeniad gwybodaeth gyhoeddus cyflym, cywir ac effeithiol.
- Cydlynu cysylltiadau â'r cyfryngau yn ystod argyfyngau, gan gynnwys cynadleddau i'r wasg, cyfweiliadau, a datganiadau swyddogol.
- Sicrhau aliniad â chynlluniau parhad busnes a'r Protocol Gweithredu Cell Cyfryngau aml-asiantaeth.

5. Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Datblygu a gweithredu cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu mesuradwy i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd, annog diogelwch ar y ffyrdd, a chefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol allweddol.
- Cydweithio â chysylltiadau cyfathrebu allweddol yn Llywodraeth Cymru (Is-adran Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, Timau Trafnidiaeth a Chyfathrebu) i sicrhau aliniad negeseuon a chyflwyno mentrau ar y cyd.
- Rheoli targedu cyfathrebu rhanddeiliaid o ansawdd uchel:
- Allfeydd cyfryngau a'r wasg
- Awdurdodau lleol ac aelodau etholedig
- Gwasanaethau Brys
- Gweithredwyr adfer ffyrdd a chyfleustodau
- Cymdeithasau proffesiynol a grwpiau diwydiant
- Cymeradwyo a goruchwyllo datganiadau i'r wasg, datganiadau cyhoeddus, a sesiynau briffio i'r cyfryngau.
- Gweithredu fel gwarcheidwad brand ar gyfer Traffig Cymru, gan sicrhau cysondeb mewn tôn llais, hunaniaeth weledol, a negeseuon ar draws yr holl gynnwys sy'n wynebu'r cyhoedd.
- Sicrhau dwyieithrwydd a chynhwysiant ym mhob cyfathrebu, yn unol â chanllawiau Safonau'r Gymraeg, Saesneg Plaen, a Cymraeg Clir.
- Darparu cymorth cyfathrebu strategol ar gyfer ymgyrchoedd sy'n wynebu'r cyhoedd, digwyddiadau ymgynghori, a diweddariadau gwasanaeth i gynnal presenoldeb brand clir a dibynadwy ledled Cymru.

6. Parhad Busnes a Pherfformiad Gwasanaeth

- Goruchwyllo adroddiadau gweithgaredd cyfryngau a gwerthusiadau perfformiad ar gyfer uwch reolwyr a LIC.
- Arwain Rheoli Parhad Busnes o fewn yr adran, gan sicrhau lleiafswm o darfu ar wasanaethau cyfathrebu yn ystod argyfyngau.
- Nodi gwelliannau effeithlonrwydd mewn llifoedd gwaith cyfathrebu, optimeiddio adnoddau i wella darparu gwasanaethau.
- Cynhyrchu a dadansoddi adroddiadau perfformiad digidol, gan dynnu mewnwelediad o offer dadansoddeg i fireinio strategaeth, gwneud y mwyaf o ymgysylltiad â'r gynulleidfa, ac ymateb i dueddiadau cyhoeddus.



Manylion Person

Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

Meini prawf penodol i'r swydd

Nodweddion personol:

Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r gallu i ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol yn effeithiol.
- Sgiliau arwain cryf gyda'r gallu i reoli, ysgogi a datblygu tîm cyfathrebu mewn amgylchedd pwysau uchel.
- Y gallu i weithio'n annibynnol a chymryd menter wrth gynnal dull cydweithredol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Sgiliau datrys problemau cryf gyda'r gallu i ddatblygu atebion creadigol ac ymarferol i heriau cymhleth.
- Y gallu i reoli prosiectau lluosog, blaenoriaethu gofynion cystadleuol, a chwrdd â dyddiadau cau tynn o dan bwysau.
- Lefel uchel o uniondeb proffesiynol, disgresiwn a gwneud penderfyniadau moesegol.
- Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus a chadw'r wybodaeth ddiweddaraf ag arferion gorau y diwydiant.

Cymhwysterau a Hyffroddiant perthnasol:

Hanfodol

- Gradd neu gyfwerth mewn cyfathrebu, newyddiaduraeth, cysylltiadau cyhoeddus neu faes perthnasol.

Dymunol

- Aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol, yn ddelfrydol gyda statws Siartredig, e.e. CIPR, CIM, IoIC
- Cymhwyster arweinyddiaeth, hyfforddi neu fentora, e.e. ILM.

Profiad perthnasol

Hanfodol

- Profiad mewn rôl gyfathrebu uwch, yn ddelfrydol o fewn sector cyhoeddus, gwasanaethau brys, neu sefydliad proffil uchel
- Profiad o ddatblygu a gweithio i weithdrefnau QA achrededig e.e. ISO9001
- O leiaf 3 blynedd o brofiad mewn rôl debyg.
- Profiad mewn rheoli staff, gan gynnwys arweinyddiaeth tîm, rheoli perfformiad, a datblygiad proffesiynol.
- Profiad wedi'i brofi mewn cynllunio cyfathrebu strategol, rheoli argyfwng, a rheoli enw da.
- Profiad o greu cynnwys wedi'i dargedu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys y cyhoedd, rhanddeiliaid a gweithwyr.

Dymunol

- Profiad o weithio gyda'r wasg a'r cyfryngau allanol, gan gynnwys gweithredu fel llefarydd sefydliadol.
- Profiad mewn gwasanaeth cwsmeriaid neu rôl trin cwynion.
- Profiad o reoli cyllideb adrannol yn effeithiol.

Sgiliau a gwybodaeth arbenigol:

Hanfodol

- Profiad wedi'i brofi o reoli a datblygu tîm cyfathrebu, darparu arweinyddiaeth strategol, hyfforddi a rheoli perfformiad.
- Gallu cryf i ysbrydoli, ysgogi a chefnogi staff mewn amgylchedd pwysau uchel.
- Gwybodaeth fanwl am lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a strategaethau ymgysylltu digidol.
- Dealltwriaeth gref o gysylltiadau cyhoeddus, cysylltiadau â'r cyfryngau, a rheoli enw da.
- Profiad o ddefnyddio offer dadansoddeg i werthuso effeithiolrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu â'r gynulleidfa.
- Sgiliau ysgrifennu, golygu a chyflwyno eithriadol wedi'u teilwra i wahanol gynulleidfaoedd a sianeli cyfathrebu.
- Sgiliau rhyngpersonol cryf gyda phrofiad o weithio'n adeiladol ar draws timau amlddisgyblaethol.
- Dangos gallu i adeiladu a chynnal perthnasoedd â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys asiantaethau'r llywodraeth, gwasanaethau brys, a sefydliadau'r cyfryngau.
- Dealltwriaeth gref o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, GDPR, a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Dymunol

- Yn gyfarwydd â gweithdrefnau perthnasol llywodraeth leol a / neu ganolog.
- Gwybodaeth dda o systemau Sicrhau Ansawdd.
- Gwybodaeth am weithdrefnau personél Awdurdodau Lleol.

Anghenion leithyddol

Hanfodol

- Y gallu i ddilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd i gyflwyno gwybodaeth a mynegi barn.
- Y gallu i ddarparu cyflwyniad wedi'i baratoi ymlaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau amdano drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Sgiliau Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol, ffurfiol ac anffurfiol.
- Y gallu i gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni'r gwaith.
- Y gallu i gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hyderus ar ffurf llythyr, adroddiad manylach ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig sy'n cyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. (Mae'n bosibl cael help i wirio'r iaith).

Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff:



- 29.5 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8 diwrnod o wyliau banc.
- Oriau gweithio hyblyg.



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwytu, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.



- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.



- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.